**Teitl: Cymdeithas Aml-Gred (aml-ffydd) Cymru Rhan 2**

| Teitlau | Eglwys Gymunedol Tywi | Iddewiaeth yng Nghymru | Sikiaeth yng Nghymru |
|---|---|---|---|
| **Rhesymeg** | **YMWADIAD:** Mae'r Nodiadau i Athrawon wedi'u diweddaru er mwyn gallu defnyddio'r adnodd drwy Gwricwlwm i Gymru. Wedi dweud hynny, mae cynnwys yr erthyglau wedi'i archifo ac nid yw'r wybodaeth wedi'i diweddaru. Mae'r erthyglau yn cael eu cadw ar y wefan gan fod y cynnwys yn parhau i fod yn berthnasol i Gwricwlwm i Gymru: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.<br><br>**Pedwar diben 'Cwricwlwm i Gymru - Cwricwlwm am Oes'**<br>**Drwy ddysgu am Gymdeithas Aml-Gred (aml-ffydd) Cymru fel rhan o'u gwersi addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, bydd cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu yn:**<br>• Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu egluro'r syniadau a'r cysyniadau maen nhw'n eu dysgu;<br>• Unigolion iach a hyderus sydd â gwerthoedd cadarn ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesol;<br>• Cyfranogwyr mentrus, creadigol sy'n rhoi o'u hegni a'u sgiliau er budd pobl eraill;<br>• Dinasyddion moesol, dysgedig a fydd yn ymgysylltu â materion cyfoes yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u gwerthoedd.<br><br>**Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru**<br>Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i:<br><br>• Ymgysylltu â chwestiynau athronyddol a thyngedfennol, a'u harchwilio<br>• Ymgymryd ag ymholiadau ac ymgysylltu â ffynonellau o ddoethineb ac athroniaethau<br>• Datblygu a mynegi eu safbwyntiau dysgedig eu hunain<br>• Defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am safbwyntiau byd-eang crefyddol a heb fod yn grefyddol i feddwl yn feirniadol am eu gwerthoedd eu hunain<br>• Archwilio'r ffyrdd mae argyhoeddiadau athronyddol crefyddol a heb fod yn grefyddol wedi dylanwadu ar brofiad dynol drwy gydol hanes<br>• Gwerthuso amrywiaeth o ffynonellau crefyddol a heb fod yn grefyddol a defnyddio tystiolaeth ohonynt i ymgysylltu â materion moesegol a moesol<br>• Archwilio credoau ac arferion pobl yn eu cymuned, yng Nghymru ac yn y byd ehangach ac ymateb yn sensitif iddynt<br>• Datblygu gwerthoedd cadarn a sefydlu eu credoau moesol a'u hysbrydolrwydd<br>• Trafod eu persbectifau eu hunain a phersbectifau eraill, a myfyrio arnynt | | |

| Teitlau | Eglwys Gymunedol Tywi | Iddewiaeth yng Nghymru | Sikiaeth yng Nghymru |
|---|---|---|---|
| | **Y lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**<br>Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio amrywiaeth o gysyniadau yn ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy'r **is-lensys isod:**<br>• Chwilio am ystyr a diben;<br>• Y byd naturiol a phethau byw;<br>• Hunaniaeth a pherthyn;<br>• Awdurdod a dylanwad;<br>• Perthnasoedd a chyfrifoldeb;<br>• Gwerthoedd a moeseg;<br>• Taith bywyd;<br><br>*Noder bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael eu pennu'n lleol drwy faes llafur cytunedig. Mae gan bob awdurdod lleol ei faes llafur cytunedig ei hun ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y mae'n rhaid i ysgolion ei ystyried. Mae pob maes llafur sydd wedi'i gytuno wedi ystyried fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chanllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y cyfeirir atynt uchod ac isod.<br><br>**Dolenni Defnyddiol:**<br><br>**Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#religion,-values-and-ethics-guidance**<br>**Canllawiau Dyniaethau Hwb - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities**<br>**Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/statements-of-what-matters/**<br>**Themâu Trawsgwricwlaidd - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#cross-cutting-themes** | | |

| Teitlau | Eglwys Gymunedol Tywi | Iddewiaeth yng Nghymru | Sikiaeth yng Nghymru |
|---|---|---|---|
| **Geirfa allweddol** | Cyfoes - rhywbeth sy’n perthyn i heddiw, nid y gorffennol. *Modern*.<br><br>Traddodiadol - rhywbeth sy’n bod ers blynyddoedd lawer, hen ffasiwn. *Traditional.*<br><br>Naws - teimlad, blas. *Feeling.*<br><br>Byrlymus - bywiog, llawn bywyd. *Bubbly / lively.*<br><br>Alpha - cwrs sy’n helpu pobl sy’n gwybod fawr ddim am y Beibl a’r ffydd Gristnogol i ddysgu am y pethau sylfaenol fel er enghraifft, Pam ddylwn i ddarllen y Beibl? Beth ydy’r Ysbryd Glân? Fel arfer bydd pobl yn cyfarfod i gael pryd o fwyd gyda’i gilydd cyn edrych ar fideo sy’n egluro’r ffydd mewn ffordd syml a bywiog, a chael trafodaeth. Mae’r cwrs yn para am nifer o wythnosau. Mae’r cwrs ar gael yn Gymraeg ac mae fersiwn arbennig ar gyfer Pobl Ifanc.<br><br>Ymarferol - defnyddiol, gwneud nid jyst dweud. *Practical.*<br><br>Budd-daliadau - taliadau sy’n cael eu rhoi i bobl pan maen nhw’n wynebu trafferthion ariannol mewn bywyd. *Benefits.*<br><br>Gwireddu - gwneud i rywbeth ddod yn realiti. *To fulfil, to realise, to make it happen.* | Synagog – adeilad ar gyfer addoliad yr Iddewon.<br><br>Gwlad aml-ffydd – gwlad sy’n cydnabod bod lle i sawl ffydd a chred.<br><br>Gwlad aml-ddiwylliant – gwlad sy’n cydnabod fod lle i sawl diwylliant a ffordd o fyw.<br><br>Iddewon Uniongred – un traddodiad o fewn y grefydd Iddewig sy’n cadw at holl reolau traddodiadol y ffydd.<br><br>Iddewon Diwygiedig – traddodiad o fewn y grefydd Iddewig sy’n fwy parod i addasu a newid.<br><br>Kosher – yr hyn sy’n addas i Iddewon ei fwyta.<br><br>Shabbat – dydd addoli’r Iddewon.<br><br>Kiddush – seremoni Iddewig i groesawu’r Saboth.<br><br>Cheder - gwersi sylfaenol mewn Iddewiaeth a’r iaith Hebraeg. | Punjab – Yr ardal yng Ngogledd India y mae Sikhiaid yn ei hawlio fel eu mamwlad.<br><br>Cyfrifiad – Arolwg o’r boblogaeth sy’n cael ei gynnal ym Mhrydain bob 10 mlynedd. Bydd y nesaf yn 2021.<br><br>Nagar Kirtan - Defod Sikhaidd sy’n golygu gorymdeithio trwy’r gymuned yn canu emynau.<br><br>Guru Nanak – Y Guru cyntaf a sylfaenydd Sikhaeth.<br><br>Gurdwara – Y deml Sikhaidd sy’n ganolbwynt i’r gymuned Sikhaidd<br><br>CYSAG – Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol. Y cyngor ym mhob sir sy’n goruchwylio darpariaeth Addysg Grefyddol yn ysgolion y sir honno.<br><br>Kirat Karo – Un o Dri Piler Sikhaeth. Mae’n golygu dilyn bywoliaeth onest er budd yr unigolyn,y teulu a’r gymuned.<br><br>Vand Chakko – Yr ail o’r Tri Piler. Mae’n golygu rhannu yr hyn sydd gennych.<br><br>Nam Japo – Yr olaf o’r Tri Piler. Mae’n golygu myfyrio ar enw Duw.<br><br>Guru Angad Dev – Yr ail o’r Deg Guru.<br><br>Guru Granth Sahib – Prif ysgrythur Sikhaeth. Mae’n |

| Teitlau | Eglwys Gymunedol Tywi | Iddewiaeth yng Nghymru | Sikiaeth yng Nghymru |
|---|---|---|---|
| | Gweledigaeth - breuddwyd, rhywbeth mae person yn anelu ato. *Vision.* | | cael ei ystyried fel y Guru byw terfynol a thragwyddol. |
| **Geiriau chwilio** | Helter skelter<br><br>Crazy golf<br><br>Eglwys gymunedol<br><br>Bowlio deg<br><br>Grwpiau bywyd<br><br>Xcel<br><br>Banc bwyd<br><br>Towy | Uniongred<br><br>Diwygiedig<br><br>Holocost<br><br>Synagog<br><br>Kosher<br><br>Cheder<br><br>Kiddush<br><br>Shabbat | Sikhaeth<br><br>Sikhiaid<br><br>Cymuned<br><br>Dathlu<br><br>Gorymdaith<br><br>Caerdydd<br><br>Gurdwara<br><br>Hiliaeth<br><br>Diwylliant<br><br>Deg Guru |
| **Tasgau dosbarth** | Tasgau estynedig sy’n gofyn i’r disgyblion i ddefnyddio’r 3 erthygl, cyfeirio at gredoau/dysgeidiaethau ac arferion crefyddol wrth ymateb i gwestiynau sylfaenol/crefyddol. | | |

| Teitlau | Eglwys Gymunedol Tywi | Iddewiaeth yng Nghymru | Sikiaeth yng Nghymru |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Tasgau ymestynnol** | 1. Mae Eglwys Gymunedol Tywi wedi ceisio gweithredu ar ei ffydd yn ymarferol a helpu pobl eraill. Enghraifft arall o hyn ydy Capel Minny Street, sydd wedi agor yng Nghaerdydd, caffi sy'n croesawu ac yn ceisio helpu'r rhai sy'n dioddef gyda dementia, a'u teuluoedd. Ewch ati mewn grwpiau bach i feddwl sut y gallai eglwysi/capeli Cymru heddiw wneud rhywbeth ymarferol i helpu, hyd yn oed os ydyn nhw'n eglwysi bach. Gwnewch ychydig o waith ymchwil ar y we i weld beth mae eglwysi eraill yn ei wneud.<br><br>2. Gwnewch ychydig o ymchwil ar y We a chwilio am adnodau o'r Beibl sy'n dweud y dylen ni helpu pobl eraill. Os ydych chi'n darganfod geiriau ddywedodd Iesu, ysgrifennwch nhw mewn coch.<br><br>3. Ysgrifennwch baragraff yn disgrifio beth sy'n wahanol wrth i eglwys gynnal addoliad mewn adeilad sydd ddim yn addoldy (ysgol neu neuadd bentref). Beth ydy'r manteision? Beth ydy'r | 1. 'Stori garu'r flwyddyn......Cosb oedd cwympo mewn cariad'. Dyma froliant y ffilm Solomon a Gaenor. Ymchwiliwch i agwedd pobl tuag at yr Iddewon adeg yr helynt yn ardal Tredegar yn 1911.<br><br>2. Ewch ati i chwilio am hanes yr Iddewon yn eich ardal chi. I ba raddau yr oeddent yn siopwyr a phobl lwyddiannus ym myd busnes.<br><br>3. Y mae llawer o adeiladau o bwys hanesyddol yng Nghymru wedi cael eu symud i Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Ysgrifennwch lythyr atynt yn dadlau dros symud synagog Merthyr Tudful yno.<br><br>4. Pa agweddau o Iddewiaeth y mae Iddewon yng Nghymru yn ceisio eu cadw'n fyw? Beth am ddefnyddio tri is-deitl:- Crefydd, Diwylliant, Ffordd o fyw. Cofiwch gyfeirio at synagogau byw Cymru.<br><br>5. Ag eithrio Cristnogaeth, i ba raddau mae | 1. Ymchwiliwch fwy i gefndir Sikhaeth ac i'w prif gredoau.<br><br>2. Trafodwch pa un o Dri Piler Sikhaeth yw'r pwysicaf i greu cymuned gwerth byw ynddi..<br><br>3. Mae Hardev Kaur yn canmol addysg am gael gwared ar lawer o broblemau fel hiliaeth. Trafodwch sut y gall addysg helpu i greu cymuned lle mae croeso i bawb.<br><br>4. Pam mae Cymru yn cael ei chanmol fel lle i bobl o grefyddau a diwylliannau gwahanol fyw ynddi?<br><br>5. Beth yn eich tyb chi yw ystyr neges Neeta Baicher bod yn rhaid dysgu sut mae bod yn fod dynol gyntaf cyn bod yn ddim byd arall? |

| Teitlau | Eglwys Gymunedol Tywi | Iddewiaeth yng Nghymru | Sikiaeth yng Nghymru |
|---|---|---|---|
| | anfanteision? Beth fyddai orau gennych chi – hen adeilad traddodiadol neu un modern?<br><br>4. 'Pregethu a dysgu pobl am y Beibl ydy gwaith eglwys – nid rhedeg Canolfan Bowlio Deg!'<br>Sut fyddech chi'n dadlau yn erbyn person sy'n dweud hynny? Defnyddiwch fywyd Iesu fel tystiolaeth.<br><br>5. Lluniwch ddisgrifiad o'r eglwys/capel delfrydol, eglwys yr hoffech chi fynd iddi. Sut fath o addoliad? Sut fath o adeilad? Sut fath o weithgarwch (ysbrydol ac arall)? | twf crefyddau eraill yng Nghymru wedi dibynnu ar bobl yn symud i mewn er mwyn cynyddu'r niferoedd. Beth yw arwyddocad y duedd yma o ran Iddewiaeth? | |
| **Adnoddau pellach** | https://www.xcelprojectcymru.co.uk/cartref | | |